WHELF

Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru

Adroddiad Blynyddol

2010 - 2011

Grŵp cydweithredol o'r holl lyfrgelloedd prifysgol a llyfrgelloedd addysg uwch yng Nghymru yw WHELF (Wales Higher Education Libraries Forum), ynghyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Y Cadeirydd yw Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac mae'r aelodau'n cynnwys Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Gwybodaeth a Phenaethiaid Gwasanaethau Llyfrgell.

Nod WHELF yw hybu cydweithrediad ym maes gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth; annog cyfnewid syniadau; darparu fforwm i alluogi pobl i gefnogi ei gilydd, a chynorthwyo yn y gwaith o hwyluso syniadau newydd yn y ddarpariaeth o wasanaethau llyfrgell a gwybodaeth.

Mae WHELF yn gweithredu trwy hybu gwaith llyfrgelloedd addysg uwch yng Nghymru, ac yn darparu ffocws i annog datblygu syniadau a gwasanaethau newydd.

Llyfrgelloedd WHELF

Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Glyndŵr
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
Prifysgol Fetropolitaidd Abertawe
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Cymru
Prifysgol Cymru, Casnewydd
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Cynnwys

Cyflwyniad y Cadeirydd	3
Crynodeb o'r Flwyddyn	4
Cydweithrediad a Phartneriaeth	6
Rhwydwaith Cronfeydd Cymru	10
Digideiddio	12
Datblygiad Proffesiynol Parhaus	14
WHELF: Busnes a Phobl	16
Ymgynghoriadau	18
Cynrychiolaeth	19



Y Gofod Dysgu Cymdeithasol newydd ym Mhrif Lyfrgell y Celfyddydau, Prifysgol Bangor

Cyflwyniad y Cadeirydd

Yn ôl y sôn, roedd Sam Goldwyn, y cynhyrchydd ffilmiau o America, wedi gofyn wrth saethu'r ffilm *The Last Supper*, 'Pam dim ond *deuddeg* apostol?' Pan ddywedwyd wrtho mai dyna oedd y nifer gwreiddiol, atebodd, 'Wel, ewch mas a chasglu miloedd!'

Mae amcan WHELF rywbeth yn debyg: pedwar person ar ddeg o bedwar sefydliad ar ddeg yn ceisio'u lluosi eu hunain – er mwyn cynhyrchu rhyngddynt lawer mwy o ddefnyddwyr llyfrgell nag y byddent yn eu cynhyrchu wrthynt eu hunain.

Yn yr adroddiad blynyddol hwn, am y cyfnod Awst 2010 – Gorffennaf 2011, cyflwynir rhagor o dystiolaeth o'r modd y gall cydweithredu hapus rhwng llyfrgelloedd academaidd yng Nghymru gyflawni canlyniadau nodedig ar ran myfyrwyr, staff ac eraill, a hynny mewn cyfnod o ansicrwydd a phroblemau ariannol na welwyd mo'u tebyg o'r blaen.

Bu rhannu adnoddau gwybodaeth yn un o uchelgeisiau WHELF o'r cychwyn cyntaf, ond mae'r trefniant a wnaed gyda Gwasg Prifysgol Rhydychen ar gyfnodolion electronaidd yn gam mawr ymlaen i ymchwilwyr yng Nghymru, ac yn agor y drws i drefniadau tebyg gyda chyhoeddwyr eraill yn y dyfodol. Yn yr un modd, bu helpu myfyrwyr i wahaniaethu yn eu defnydd o wybodaeth yn fater o bryder i lyfrgellwyr ers tro, ond mae Prosiect Llythrennedd Gwybodaeth Cymru, a edmygir ledled y Deyrnas Gyfunol a thu hwnt, wedi cyflawni gwaith arloesol wrth integreiddio sgiliau o'r fath mewn dysgu ac addysgu. Y drydedd enghraifft yw digideiddio, lle eto mae modd cyflawni llawer mwy drwy gydweithio ar raddfa Cymru gyfan nag y byddai modd ei wneud trwy weithgareddau unigol, cystadleuol.

Rhoddwyd sylw i rai o'n gweithgareddau a'n haelodau yng Nghynhadledd Flynyddol SCONUL, a gynhaliwyd eleni yng Nghaerdydd: roedd yn fodd i'n hatgoffa bod WHELF, fel consortiwm, yn fodel a edmygir ledled y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon. Yr hyn nad yw mor amlwg i rai o'r tu allan, a'r nodwedd sy'n ei wneud yn wahanol i'r rhan fwyaf o grwpiau tebyg, yw ei fod yn un o'r consortia proffesiynol mwyaf cefnogol, gyda Gregynog, ei gartref ysbrydol, yn lleoliad delfrydol i rannu profiad a doethineb.

Mae'n bleser parhaus i mi gael y fraint o gydweithio â phobl mor dalentog – ac nid yw'n syndod gweld bod dau aelod o WHELF wedi eu penodi yn ystod y flwyddyn i swyddi uchel o fewn eu prifysgolion.

Andrew Green
Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cynrychiolwyr o Lyfrgell Chongquing yn ystod eu hymweliad â LlGC i arwyddo Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng y ddwy lyfrgell (5 Awst 2011)

Crynodeb o'r Flwyddyn

Yn y ddogfen *Dyfodol Addysg Uwch yng Nghymru*, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) yn pennu argymhellion clir iawn ar gyfer y gwaith o ailgyflunio'r sector addysg uwch yng Nghymru. Cyfeiriai ymateb WHELF at waith arloesol a wnaed mewn llyfrgelloedd, gwaith a ddangosai'n glir y 'diwylliant o gydweithio – fel yr un a arddelir gan sefydliadau yng Nghymru' roedd JISC eisoes wedi tynnu sylw ato. Mae Leighton Andrews, y Gweinidog dros Addysg, wedi cefnogi cynlluniau i gyfuno prifysgolion yng Nghymru, gan dorri'r nifer o ddeg i chwech.

Eleni, mae dau gynllun newydd yn cynnig dulliau gwahanol o ymdrin â'r ddarpariaeth addysgol yng Nghymru. Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a'i phartneriaid addysg bellach yn creu 'prifysgol sector deuol' i ymateb i anghenion addysgol, cymdeithasol ac economaidd yr ardal, gyda'r manteision ariannol yn cynnwys gwasanaethau llyfrgell ar y cyd. Sefydliad newydd, cenedlaethol yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a fydd yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o gynllunio, cefnogi a datblygu addysg ac ysgolheictod cyfrwng Cymraeg mewn prifysgolion yng Nghymru. Mae WHELF yn cefnogi nod y Coleg i ddatblygu partneriaethau effeithiol ar y cyd.

Addawodd Llywodraeth Cymru gyfrannu arian i sefydlu campws gwyddoniaeth prifysgol gwerth £400m yn Abertawe. Eleni hefyd lansiwyd Cyfrifiaduro Perfformiad Uchel (*High Performance Computing*) yn Ne Cymru. Mae HPC Cymru yn dod â thechnoleg, isadeiledd a chyfleusterau cyfrifiaduro o'r radd flaenaf i Gymru am y tro cyntaf, er budd busnesau a phrifysgolion. Wedi'i leoli ym Mhrifysgolion Abertawe a Chaerdydd, bydd yn cyflwyno cynhwysiant a rhwydwaith cyfrifiaduro ar raddfa nas gwelir ei thebyg yn unman arall yn y Deyrnas Gyfunol nac Ewrop.

Mae CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru wedi dechrau paratoi strategaeth newydd ar gyfer y tair blynedd nesaf, sef *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli: Fframwaith strategol drafft ar gyfer datblygu llyfrgelloedd Cymru 2012–2015*. Barn CyMAL yw fod llyfrgelloedd cyhoeddus, llyfrgelloedd addysg a llyfrgelloedd mewn gweithleoedd wrth wraidd eu cymunedau. Y rheswm dros eu bodolaeth yw eu bod yn ysbrydoli ac yn helpu pobl i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau. Chwaraeodd WHELF ran bwysig yn yr ymgynghoriadau, ac edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth gyda CyMAL i gyflawni nifer o flaenoriaethau.

Gwobr a enillwyd gan Lyfrgell Trevithick, Prifysgol Caerdydd, yng nghystadleuaeth Gwobrau Cynllunio Llyfrgelloedd SCONUL

Parhaodd llyfrgelloedd academaidd yng Nghymru â'r gwaith o adnewyddu eu hadeiladau a gwella eu cyfleusterau er mwyn rhoi'r profiad gorau posibl i fyfyrwyr yn ystod cyfnod eu hastudiaethau. Ymhlith y rhain roedd Cronfa Ymchwil wrth-gefn newydd a gofodau dysgu ar y cyd ym Mhrifysgol Bangor, a gofodau astudio ychwanegol ym Mhrifysgol Abertawe. Ym mis Mawrth, lansiwyd Hoffi Coffi, caffi Cymreig newydd Prifysgol Abertawe, gan y darlledwr Huw Edwards, ac ar 23

Hoffi Coffi, caffi Cymreig Prifysgol Abertawe, a lansiwyd yn swyddogol gan Huw Edwards, y newyddiadurwr a'r darlledwr

Mehefin agorwyd drysau adeiladau newydd, dramatig Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru am y tro cyntaf.

Pan enillodd Llyfrgell Trevithick, Prifysgol Caerdydd, wobr gynllunio yn rhoddedig gan y Gymdeithas Llyfrgelloedd Coleg, Cenedlaethol a Phrifysgol (SCONUL), dywedodd Ann Rossiter, Cyfarwyddwr Gweithredol SCONUL: 'Mae llyfrgelloedd yn chwarae rhan bwysig yn yr hyn sydd gan brifysgol i'w gynnig, a gall wneud y gwahaniaeth rhwng lefel uchel a lefel isel o foddhad myfyrwyr.'

Mewn digwyddiad i ddathlu rhaglen o uwchraddio ac ailwampio llyfrgelloedd Prifysgol Caerdydd, dywedodd yr Athro Elizabeth Treasure, y Dirprwy Is-Ganghellor: 'Rydym yn gweld bod myfyrwyr yn awyddus i ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell ledled y Deyrnas Gyfunol. Mae staff a myfyrwyr yn gofyn am fwy o ofod, a gofodau gwahanol – a rhaid i ninnau greu'r amodau hynny i gwrdd â'r gwahanol anghenion.'

Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, lansiodd Prifysgol Caerdydd ei chynllun peilot newydd, 'Holi Llyfrgellydd yn Fyw' – gwasanaeth negeseuon gwib sy'n cysylltu defnyddwyr ag aelod o staff yn un o 16 o lyfrgelloedd y Brifysgol. Lansiodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ei gwasanaeth Sgwrs Sydyn ei hun ym mis Gorffennaf. Roedd y ddau gynllun yn dyst i'r ffaith fod llyfrgelloedd yn gyfarwydd â'r datblygiadau diweddaraf, ac yn profi sut y gall technoleg newydd fod o gymorth i'w defnyddwyr.

Mewn gwahanol gynadleddau yng Nghymru eleni, clywsom â diddordeb mawr am ganfyddiadau cynnar y prosiect Data Effaith Llyfrgell (*Library Impact Data*). Bellach, mae gennym ateb i'r cwestiwn: *Oes yna gydberthynas sy'n arwyddocaol yn ystadegol ar draws nifer o brifysgolion rhwng data gweithgaredd llyfrgell a chyrhaeddiad myfyrwyr?* Yr ateb yw OES!

Ym mis Gorffennaf eleni, dathlodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ganmlwyddiant gosod carreg sylfaen ei hadeilad cyntaf. 'Sefydlwyd y Llyfrgell yn sgil ymgyrch danysgrifio fawr a drefnwyd gan bobl Cymru dros ganrif yn ôl. Yn hyn o beth, mae hi'n unigryw ymhlith llyfrgelloedd cenedlaethol y byd. Rydym yn awr yn gofyn i bobl Cymru barhau i ddangos eu cefnogaeth i'r Llyfrgell, er mwyn sicrhau y bydd yr adeilad a'i gasgliadau'n gwasanaethu'r bobl am ganrif arall,' meddai Andrew Green, y Llyfrgellydd.

Dathlu canmlwyddiant gosod carreg sylfaen y Llyfrgell trwy ffurfio cadwyn ddynol o amgylch yr adeilad (15 Gorffennaf 2011)

Cydweithrediad a Phartneriaeth

WHELF: Rhaglen Rhannu Gwasanaethau Llyfrgell

Ers sawl blwyddyn bellach, bu rhannu gwasanaethau a systemau'n faes o ddiddordeb cynyddol ar draws sefydliadau WHELF, ac mae gan WHELF hanes hir o weithredu cynlluniau llwyddiannus yn y maes, e.e. cynlluniau WHEEL, WALIA a CROESO.

Ystyrir fod system rheoli llyfrgell yn faes lle gellid cael cydweithrediad pellach; mae'n elfen bwysig o gydran 'Gwasanaethau ar y Cyd' Cynllun Datblygu WHELF a bydd yn chwarae rhan allweddol yng Nghynllun Gweithredol WHELF 2011–13. Bydd CyMAL yn ariannu astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol.

Mae Rhannu Gwasanaethau, a gweithio tuag at effeithiolrwydd trwy gydweithio, hefyd yn flaenoriaeth strategol a gyflwynwyd i sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru gan HEFCW fel rhan o'r strategaeth 'Ailgyflunio a Chydweithio'.

Ein gweledigaeth strategol parthed y rhaglen 'Rhannu Gwasanaethau Llyfrgell' yw galluogi mynediad ar y cyd i'r adnoddau a'r gwasanaethau a gynigir gan lyfrgell academaidd rithwir i Gymru. Ein gobaith yw y bydd y Rhaglen yn cael effaith uniongyrchol ar ddysgwyr unigol a/neu ddinasyddion, sefydliadau addysgol a Chymru fel economi wybodaeth fywiog:

- Gall unigolion ymelwa ar y gwasanaethau ar y cyd a ddanfonir yn uniongyrchol atynt;
- Bydd sefydliadau addysgol (ar draws y ffiniau sector) yn ei chael yn haws i gydweithio i bwrpas dysgu, addysgu ac ymchwil;
- Bydd gan Gymru lwyfan gweledol ar gyfer mynediad i wybodaeth oddi mewn ac at fusnesau yng Nghymru, yn ogystal â'r gallu i dynnu sylw partneriaid economaidd a gwleidyddol at yr wybodaeth a gaiff ei chreu yng Nghymru.

Elen Wyn Davies, Rebecca Kelleher, Katrina Dalziel a Lori Havard ar achlysur Caru eich Llyfrgell ym Mhrifysgol Abertawe

Rhannu caffaeledd adnoddau electronig

Trwy gydweithio â Chasgliadau JISC, mae WHELF wedi trefnu cytundeb arloesol gydag OUP, ac o ganlyniad mae gan holl lyfrgelloedd WHELF fynediad at yr un casgliad o dros 200 o gylchgronau ar-lein Gwasg Prifysgol Rhydychen. Mae'r cytundeb hwn yn ddatblygiad pellach o gynllun Llyfrgell Electronig Addysg Uwch Cymru (WHEEL), sydd eisoes yn cynnwys mynediad at gasgliad ar y cyd o e-lyfrau.

Mae holl lyfrgelloedd WHELF bellach wedi ymuno â'r Porth Ystadegau o'r Defnydd o Gyfnodolion (JUSP). Rhaid

i gyllidebau sydd dan bwysau ddangos gwerth am arian, ac mae data dibynadwy yn allweddol. Mae ystadegau cymharol o ddefnydd yn gymorth i werthuso effaith e-adnoddau ac i gynnig gwybodaeth fydd yn ddefnyddiol wrth wneud penderfyniadau pwrcasu yn y dyfodol.

Ar ran WHELF, gwnaeth Bronwen Blatchford arolwg manwl o e-lyfrau yng Nghymru, ac ar hyn o bryd mae Prifysgol Bangor yn cael ei hariannu gan CyMAL i adrodd ar yr arbrawf Caffaeliad a Yrrir gan Alw (DDA) yng nghyd-destun e-lyfrau. Yn y model hwn, mae'r llyfrgell yn cynnig mynediad i ddewislen enfawr o ran cynnwys, ond yn talu am y deunydd a ddefnyddir gan staff a myfyrwyr yn unig.

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Gyfunol i gaffael gwasanaethau newyddion ar-lein ar y cyd ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus ac academaidd. Trefnir hyn gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar ran llyfrgelloedd yng Nghymru, gan gynorthwyo i leihau costau a rhoi gwerth am arian. Ariennir y gwaith gan CyMAL.

Arwain Prosiect Llythrennedd Gwybodaeth Cymru

Daeth Prosiect Llythrennedd Gwybodaeth Cymru, dan arweiniad WHELF ac wedi'i leoli ym Mhrifysgol Caerdydd, i ddiwedd ei flwyddyn gyntaf gyda'r holl amcanion wedi eu cwblhau'n llwyddiannus. Derbyniwyd nawdd ariannol gan CyMAL ar gyfer ail flwyddyn y prosiect. Yn ystod y flwyddyn roeddem yn falch iawn o gyhoeddi lansiad Fframwaith Llythrennedd Gwybodaeth Cymru. Dengys y Fframwaith sut y mae llythrennedd gwybodaeth dysgwyr yn datblygu dros y cyfnod addysgol, gan gynnig awgrymiadau am ganlyniadau dysgu yng nghyd-destun llythrennedd gwybodaeth, o'r lefel mynediad hyd at lefel doethuriaeth. Mae strwythur y lefelau wedi'i ysbrydoli gan fodel craidd SCONUL – Saith Colofn, a adolygwyd yn ddiweddar – ac yn cyd-fynd â Fframwaith Sgiliau Cymru i blant a phobl ifanc rhwng 3 a 19 mlwydd oed yng Nghymru, a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW).

I fod yn llythrennog yng nghyd-destun gwybodaeth, rhaid i fyfyriwr wybod pryd y mae angen gwybodaeth, a bod â'r gallu i'w lleoli, ei gwerthuso a'i defnyddio mewn dull effeithiol. Mae hon yn sgìl hanfodol yn y gweithle.

Mae gallu ymchwilwyr i drin gwybodaeth hefyd yn holl bwysig. Ym mis Rhagfyr 2010, comisiynodd y Rhwydwaith Gwybodaeth Ymchwil (RIN) astudiaeth yn archwilio lle a rôl

Cymorth TG yng Nghanolfan Addysgu Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, Llandaf

arolygwyr PhD yn yr ymgyrch i sicrhau bod myfyrwyr ymchwil yn meddu ar y lefel briodol o lythrennedd gwybodaeth i'w galluogi i ddilyn gyrfa lwyddiannus yn y maes academaidd a thu hwnt. Cyflawnwyd yr astudiaeth trwy bartneriaeth rhwng cwmni Curtis+Cartwright Consulting a Phrifysgol Caerdydd, a disgwylir iddynt gyflwyno adroddiad ym mis Hydref 2011.
Roedd Prifysgol Caerdydd hefyd yn llwyddiannus yn ei chais i JISC am arian i ddatblygu'r Prosiect Digidol. Y bwriad yw datblygu llythrennedd digidol holl staff a myfyrwyr y Brifysgol, ym mhob maes ac ar bob lefel. Mae hyn yn holl bwysig yng nghyd-destun datblygu gallu ei gweithlu a'i graddedigion yn y dyfodol. Ystyrir fod gwybodaeth a sgiliau o'r fath, y gellir eu trosglwyddo'n rhwydd i feysydd eraill, yn hanfodol wrth sicrhau bod sefydliadau a busnesau'n hyblyg ac yn addasu'n rhwydd mewn byd sy'n prysur newid.

Lledaenu mynediad ar gyfer myfyrwyr yng Nghymru

Arloesodd WHELF gyda dau gynllun mynediad trwy gyfnewid, sef CROESO a WALIA, ac erbyn hyn disodlwyd hwy gan *SCONUL* Access, cynllun ledled y Deyrnas Gyfunol. Mae'n caniatáu i fyfyrwyr israddedig llawn-amser wneud defnydd o unrhyw lyfrgell addysg uwch arall i bwrpas cyfeirio, ac yn caniatáu breintiau benthyca ar gyfer y rhan fwyaf o'r isod:

- staff academaidd ar gytundebau tymor agored neu dymor penodol.
- myfyrwyr ymchwil graddedig sydd wedi cofrestru ar gyfer PhD, MPhil neu gymhwyster cyfatebol.
- myfyrwyr rhan-amser a dysgu-o-bell, a rhai ar waith maes.
- graddedigion llawn-amser.

Mae llawer o lyfrgelloedd hefyd ar agor i aelodau o'r cyhoedd eu defnyddio, a lluniwyd nifer o bartneriaethau rhanbarthol i ganiatáu benthyca ar y cyd rhwng y gwahanol lyfrgelloedd. Eisoes mae gan fyfyrwyr yng Nghymru, fel pob dinesydd arall, hawl i gael mynediad electronig yn rhad ac am ddim i Lyfrgell Genedlaethol Cymru; mae'r Llyfrgell yn gweithio'n ddiwyd i droi'r hawl hwn yn ddefnydd go iawn, gyda chymorth cytundebau â llyfrgelloedd lleol i greu aelodaeth awtomatig.

Caru eich Llyfrgell ym Mhrifysgol Abertawe

Y sialens nesaf fydd ymestyn y mynediad yn electronig. Dan nawdd WHELF, cafwyd arolwg o fynediad cerdded-i-mewn at gyfrifiaduron, casgliadau digidol ac e-adnoddau. Mae WHELF yn bwriadu adeiladu ar brosiect diweddar SCURL yn yr Alban i edrych ar fynediad cerdded-i-mewn at e-adnoddau y mae llyfrgelloedd wedi tanysgrifio iddynt, lle bo hynny'n bosibl dan y drwydded defnydd. Canlyniad y prosiect fydd cyflwyno 'cronfa feddalwedd ymarfer gorau a fydd yn galluogi sefydliadau Addysg Uwch i sicrhau bod e-adnoddau ar gael i ddefnyddwyr allanol'.

A hwythau eisoes yn flaengar o ran cynhwysiad, mae llyfrgelloedd addysg uwch yn mynd y tu hwnt i'w hymrwymiad cyfreithiol i sicrhau bod deunyddiau e-ddysgu ar gael i'r holl fyfyrwyr a staff, beth bynnag fo'u hanabledd. Mae llyfrgelloedd yn chwarae rôl allweddol yn y dasg o hybu hygyrchedd. Bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr a chanddynt anghenion arbennig yn troi at ganolfan adnoddau eu llyfrgell i ofyn am gymorth, ac mae llyfrgelloedd mewn sefyllfa dda i gynnig y cymorth hwnnw.

Rhannu ein harbenigedd

Mae WHELF yn cefnogi nifer o gynlluniau i sicrhau bod modd rhannu gwybodaeth arbenigol rhwng y gwahanol lyfrgelloedd addysg uwch yng Nghymru:

- Mae Grŵp Hawlfraint WHELF yn ffocysu ar rannu gwybodaeth, cyngor a phrofiad.
- Mae fforwm Casgliadau Arbennig Ledled Cymru, ar gyfer llyfrgellwyr ac archifyddion sy'n gofalu am gasgliadau arbennig, yn ffocysu ar fapio a digideiddio casgliadau. Eleni, bu aelodau'n cydweithio i ddatblygu cais Cymru fel ymateb i alwad ddiweddaraf JISC am ddigideiddio ar raddfa fawr.
- Grŵp o weithwyr Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth proffesiynol yw ALIS Cymru, sy'n gweithio tuag at rannu a datblygu ymarfer gorau ym mhob agwedd o gefnogaeth i anabledd o fewn Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth yn y sector addysg uwch yng Nghymru.

Cydweithio i wella a meincnodi perfformiad

Fel aelodau o SCONUL, mae holl lyfrgelloedd WHELF yn cydweithio ar y cynlluniau cenedlaethol i Wella a Meincnodi Perfformiad, sy'n cynnwys y canlynol:

- Archwilio a hwyluso dulliau ymarferol o werthuso a gwella perfformiad ac ansawdd llyfrgelloedd SCONUL.
- Rhannu gwybodaeth yn y maes hwn, gan ddarparu adroddiadau ansoddol, adnoddau ac arweiniad, ynghyd â chyfleoedd am rwydweithio rhwng aelodau SCONUL.
- Cynnal a datblygu'r basdata ystadegol, i gwrdd ag anghenion llyfrgelloedd SCONUL am ddata perfformiad.

Neuadd Astudio Llyfrgell Prifysgol Abertawe

Rhwydwaith Cronfeydd Cymru

Cynllun cydweithredol rhwng y Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yw Rhwydwaith Cronfeydd Cymru (WRN), wedi'i ddatblygu dan nawdd WHELF i sefydlu, datblygu a phoblogi rhwydwaith o gronfeydd sefydliadol sy'n gweithredu fel un. Y weledigaeth sy'n gynsail i'r rhwydwaith yw hwyluso ac annog rhannu adnoddau ar draws Cymru, a chynyddu dylanwad ymchwil o Gymru yn fyd-eang.

Tanategwyd y gwaith o sefydlu'r rhwydwaith trwy Brosiect Cychwynnol WRN (2007–2009), a ariannwyd gan JISC. Dan arweiniad tîm o Brifysgol Aberystwyth, darparodd y prosiect hwn gefnogaeth ariannol ac ymarferol i bob un o bartneriaid WRN. Gyda chymorth dwy flynedd bellach o ariannu gan JISC, galluogwyd Prosiect Gwella'r WRN (WRN-EP) i adeiladu ar y gwaith hwn, unwaith eto dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth (2009–2011). Gyda'r gwaith yn dod i ben ar 31 Mawrth 2011, archwiliodd WRN-EP botensial model cydweithredol, wedi'i reoli'n ganolog, i gyflymu'r gwaith o ddatblygu a defnyddio'r gwasanaethau cronfeydd yng Nghymru.

Gwasanaeth electronig i gorlannu traethodau ymchwil Cymreig

Pwrpas cronfa yw storio cynnyrch ymchwil sefydliad, a darparu mynediad ar-lein i'r cynnyrch hwnnw. Gall y deunydd gynnwys cofnodau a thestunau llawn traethodau ymchwil graddedigion, a elwir yn 'e-draethodau'. Mewn cydweithrediad â Llyfrgell Genedlaethol Cymru a gwasanaeth EThOS y Llyfrgell Brydeinig, sefydlodd RhCC (WRN) system i gorlannu e-draethodau.

Lansiwyd catalog Casgliad Traethodau Cymru yn swyddogol ar 18 Chwefror 2011. Mae'r casgliad yn caniatáu i ddefnyddwyr weld copïau electronig a chopïau papur o draethodau o bob sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru, a hynny trwy gyfrwng catalog pwrpasol. Mae'n cynnwys tua 50,000 o draethodau a thraethodau hir a gyflwynwyd am raddau uwchraddedig mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Mae'r casgliad yn cynnwys traethodau ymchwil a gyflwynwyd fel rhan o raddau PhD a graddau Meistr, yn ogystal â thraethodau cyrsiau Meistr trwy ddysgu, sydd o ddiddordeb Cymreig neu wedi ennill clod uchel. Er mai ar bapur y mae mwyafrif llethol y casgliad ar hyn o bryd, mae adneuo electronig yn dod yn gynyddol gyffredin.

Biwro Adneuo Cyfryngol

Gan wneud defnydd o arbenigedd canolog y tîm prosiect mewn metadata a hawlfraint, crewyd Biwro Adneuo Cyfryngol (MDB) gyda'r bwriad o ymchwilio i'r effaith ar wasanaethau Adennill Gwybodaeth (IR) pe rhoddid y gwaith o gynnal cronfa adneuo i ffynhonnell allanol. Trwy gydweithio â rhai o bartneriaid WRN, cymerodd y tîm gyfrifoldeb dros adneuo nifer o gasgliadau penodol.

Tîm WRN gyda chydweithwyr o'r Llyfrgell Genedlaethol yn lansiad cynllun Corlannu Traethodau Cymru

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth peilot gan dri sefydliad: Prifysgol Fetropolitaidd Abertawe, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, a Phrifysgol Cymru, Casnewydd. Nododd pob sefydliad gasgliadau arwahanol o eitemau y dymunent eu cyflwyno i gael eu prosesu o fewn yr MDB. Dangosodd gwerthusiad o'r gwasanaeth fod y tri sefydliad peilot yn hynod gadarnhaol ynghylch eu hymwneud â'r MDB. Cyflwynodd Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd dystiolaeth o gynnydd yn y nifer o staff academaidd oedd yn rhyngweithio â'r gronfa, o ganlyniad i adneuo eu heitemau MDB.

Dyfodol Rhwydwaith Cronfeydd Cymru

Er bod yr WRN-EP wedi dod i ben yn swyddogol ar 31 Mawrth 2011, cytunwyd y bydd WRN yn parhau fel is-grŵp WHELF. Rhan o agenda prosiectau WRN yw bod yn weithredol wrth hybu staff o fewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru i fod yn rhan o agenda ehangach y gronfa, ac i fanteisio ar arbenigedd rhai eraill o fewn y grŵp i ddatblygu eu gwasanaethau cronfa ymhellach. Trwy gyswllt parhaus ag is-grŵp newydd WHELF, gobeithir cynnal WRN fel rhwydwaith hunangynhaliol, a gweld gweledigaeth WRN – i rannu adnoddau ledled Cymru a chynyddu effaith ymchwil Gymreig yn fyd-eang – yn parhau.

AEIOU – cynyddu amlygrwydd ymchwil academaidd yng Nghymru

Llwyddodd consortiwm WRN yn eu cais am ariannu pellach gan JISC. Bu prosiect AEIOU Cymru (Data Gweithgaredd i Gyfoethogi a Chynyddu Defnydd Mynediad-agored) yn rhedeg am chwe mis, ac fe'i cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2011. Nod y prosiect oedd cynyddu amlygrwydd a defnydd yr holl ymchwil academaidd trwy gyfuno data gweithgaredd cronfeydd sefydliadau Cymreig i ddarparu gwasanaeth argymell 'yn aml yn cael eu harchwilio gyda'i gilydd' megis y rhai a ddefnyddir gan Amazon. Roedd y gwasanaeth yn anelu at hyrwyddo'r berthynas rhwng grwpiau ymchwil rhyng-sefydliadol o fewn Cymru.

Aelodau o'r WRN gyda chydweithwyr o'r Llyfrgell Genedlaethol, y Llyfrgell Brydeinig a WHELF yn lansiad cynllun Corlannu Traethodau Cymru

Digideiddio

Strategaeth Ddigideiddio WHELF

Strategaeth WHELF yw cydweithio, gyda'n gilydd neu trwy gynghreiriau penodol, yn y meysydd canlynol:

- creu cynnwys digidol newydd (neu gyfoethogi gwerth cynnwys digidol sy'n bodoli eisoes)
- rhannu arbenigedd a gwybodaeth ym maes polisi ac arferion digideiddio
- datblygu mecanweithiau a deunyddiau cynhaliol i hybu dysgu, addysgu ac ymchwil
- cynorthwyo i wneud ymchwil sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn fwy gweladwy.

Bu Lorna Hughes, deiliad Cadair Casgliadau Digidol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn cydweithio gyda WHELF i ddatblygu nifer o brosiectau. Un enghraifft eleni oedd cais Cymru mewn ymateb i alwad ddiweddaraf JISC am ddigideiddio ar raddfa fawr.

Cylchgronau Cymru Ar-lein

Gan weithio mewn partneriaeth ag aelodau WHELF, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar hyn o bryd yn cwblhau prosiect a ariannwyd gan JISC, y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru, i ddigideiddio cyfran helaeth o'i daliadau o gyfnodolion o'r 20fed ganrif sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r deunydd yn amrywio o gyfnodolion academaidd ac ysgolheigaidd i gylchgronau materion cyfoes a phoblogaidd, ac yn adlewyrchu pob agwedd ar fywyd Cymru.

Papurau Newydd a Chylchgronau Cymru Ar-lein

Prosiect tair-blynedd yw hwn i ddigideiddio cyfran uchel o'r holl bapurau newydd Cymreig sydd allan-o-hawlfraint, ac i gyhoeddi'r testun ar-lein fel bod pawb yn gallu chwilio, profi ac ailddefnyddio'r deunydd yn rhad ac am ddim. Cefnogodd WHELF gais llwyddiannus y Llyfrgell Genedlaethol i SCIF (y Gronfa Buddsoddiad Cyfalaf Strategol), ac ar hyn o bryd mae'n cefnogi cais cydgyfeiriant yr Undeb Ewropeaidd am ariannu Blwyddyn 3.

Troi'r Tudalennau

Dadorchuddiwyd technoleg newydd, a ddyfeisiwyd i alluogi defnyddwyr i 'droi tudalennau' rhithwir llyfrau a ddigideiddiwyd, yn SCOLAR Prifysgol Caerdydd. Mae'r sgrin-gyffwrdd newydd 3D ddigidol 40" a meddalwedd *Troi'r Tudalennau/Turning the Pages* yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr weld rhai o lyfrau a llawysgrifau hynaf Cymru, deunyddiau sy'n rhan o'r casgliad o 14,000 o eitemau prin a drosglwyddwyd i'r Brifysgol ym mis Mai 2010.

Trwy bwrcasu'r sgrin-gyffwrdd a'r feddalwedd – gyda chymorth grant a dderbyniwyd o Sefydliad Wolfson –

Dr David Grant (IG), yr Athro Elizabeth Treasure (Dirprwy IG) a Janet Peters (Cyfarwyddwr Llyfrgelloedd y Brifysgol) yn lansio Troi'r Tudalennau

Caerdydd yw'r sefydliad cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio technoleg o'r fath i arddangos llyfrau prin digidol. Roedd y ciosg maint-llawn yn atyniad poblogaidd yng Ngŵyl y Gelli ac yn Eisteddfod Genedlaethol 2011. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru a CyMAL, mae SCOLAR bellach wedi pwrcasu fersiynau cludadwy *o Troi'r Tudalennau* er mwyn eu galluogi i deithio ledled Cymru.

Prosiect Llyfr Esgobol Bangor

Llawysgrif ganoloesol unigryw yw Llyfr Esgobol Bangor, a gedwir yn Archifdy Prifysgol Bangor. Cafodd ei llunio ar gyfer defnydd personol Anian II, Esgob Bangor rhwng 1309 a 1328, ac mae'n cynnwys gwahanol seremonïau litwrgïaidd mewn Lladin. Mae hi hefyd yn werthfawr am ei chynnwys cerddorol cyfoethog, yn cynnwys nifer o alawon plaengan sy'n unigryw i'r ffynhonnell hon.

Lansiwyd Prosiect Llyfr Esgobol Bangor ym mis Hydref 2009 i gyd-fynd â dathliadau 125 mlynedd Prifysgol Bangor; prosiect ar y cyd yw hwn rhwng Eglwys Gadeiriol Bangor, Archifau Prifysgol Bangor, Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, a'r Sefydliad Astudiaethau Canoloesol a Modern Cynnar. Prif amcan y prosiect yw diogelu'r llawysgrif ar gyfer y dyfodol, darparu mynediad byd-eang iddi trwy ddigideiddio'r cynnwys, a chynhyrchu cyfres o adnoddau blaengar a fydd yn ehangu ei hapêl i ddefnyddwyr o bob math.

Llunio'r dyfodol – ar gyfer treftadaeth, ar gyfer pawb: ymgynghoriad ar fframwaith strategol Cronfa Dreftadaeth y Loteri am 2013–2019

Ymatebodd WHELF i'r ymgynghoriad hwn er mwyn tanlinellu gwerth y dreftadaeth ddogfennol, llawer ohoni'n cael ei chadw mewn archifau a chasgliadau llyfrgell mewn llyfrgelloedd cenedlaethol a phrifysgolion. Mae'r casgliadau arbennig hyn o werth hanesyddol parhaol, ond mae angen gweithredu i sicrhau eu bod yn cael eu cadw a'u bod yn hygyrch ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Myfyrwyr yn ymchwilio i hanes archwiliad archaeolegol Herculaneum a Pompeii, yn Llyfrgell ac Archifau Roderic Bowen, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae gan WHELF grŵp hynod weithgar ym maes datblygu a hyfforddi staff (WHISD), a drefnir ar y cyd â'r grŵp TG HEWIT (Technoleg Gwybodaeth mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru); mae'r grŵp yn gyfrifol am ystod o weithgareddau, yn cynnwys colocwiwm blynyddol llwyddiannus. Trefnwyd hefyd ddwy seminar lwyddiannus iawn eleni gan y Grŵp Prifysgolion, Colegau ac Ymchwil yng Nghymru, un ohonynt ar y datblygiadau mewn catalogau llyfrgell, a'r llall ar ddefnyddio technolegau rhyngweithiol i gefnogi ymrwymiad myfyrwyr.

Colocwiwm Gregynog 2011

Bob blwyddyn, mae WHELF a HEWIT yn trefnu colocwiwm preswyl yn Neuadd Gregynog, canolfan gynadledda Prifysgol Cymru, ar gyfer staff llyfrgell a thechnoleg gwybodaeth, i roi cyfle i drafod datblygiadau diweddar ac i gyfnewid profiadau. Eleni, tro Prifysgol Morgannwg oedd hi i gymryd yr arweiniad, a threfnwyd ystod eang o themâu yn cynnwys dysgu a gyfoethogir trwy dechnoleg, cymwysiadau i'r we a ffonau symudol, llythrennedd gwybodaeth a marchnata, a gweithio ar y cyd.

Gweithredu Cydweithrediad yng Nghymru: cefnogi addysg uwch mewn colegau addysg bellach

Mae gan lyfrgelloedd addysg uwch rôl bwysig i'w chwarae hefyd wrth gefnogi addysg uwch mewn addysg bellach, felly bob blwyddyn mae WHELF yn trefnu digwyddiad ar gyfer staff

Neuadd Gregynog

mewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach – *Gweithredu Cydweithrediad yng Nghymru* – i roi cyfle i fynychwyr rannu profiadau, dysgu am y datblygiadau diweddaraf a datblygu rhaglenni gweithredu unigol ac ar y cyd ar gyfer y dyfodol. Mae yna hefyd restrau e-bost ar y cyd i gynorthwyo staff AU ac AB i rannu profiadau ac i ddatblygu dulliau ar y cyd. Cynhaliwyd digwyddiad eleni ar 28 Mehefin ar Gampws ATRiuM Prifysgol Morgannwg, ar y thema 'llythrennedd gwybodaeth a sgiliau gwybodaeth'.

Cynhadledd SCONUL 2011

Cynhaliwyd Cynhadledd flynyddol a Chyfarfod Blynyddol SCONUL eleni yng Nghaerdydd ar 8–10 Mehefin, ar y thema Cynllunio at y dyfodol. Chwaraeodd aelodau WHELF ran allweddol yn y gwaith o drefnu a chynllunio'r gynhadledd, a hwy hefyd oedd yn gyfrifol am nifer o gyflwyniadau a gweithdai, er enghraifft:

- *Rhannu i fod yn hunanol; a oes modd i ni wella trosglwyddiad a chynyddu effeithiolrwydd trwy rannu gwasanaethau?* Rebecca Davies, Prifysgol Aberystwyth
- *Beth mae pobl eraill yn ei wneud? (Ymweliad ar y cyd rhwng SCONUL a'r Almaen)* Janet Peters, Prifysgol Caerdydd
- *Caffael ar y cyd – SHEDL/WHEEL* Jeremy Atkinson, Prifysgol Morgannwg a Helen Durndell, Prifysgol Glasgow

Cynhadledd Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd Cymru 2011

Unwaith eto eleni, roedd y gynhadledd flynyddol ym mis Mai yn cynnig cyfle ardderchog i gwrdd â chydweithwyr sy'n chwarae rhan bwysig mewn llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd ym mhob sector yng Nghymru. Y thema oedd *Goroesi a Ffynnu* ac roedd y rhaglen yn cynnwys cyflwyniadau gan aelodau WHELF: *Oes modd i 2 ddod yn 1? Gwersi o ffâs cyfuno llyfrgelloedd yng Nghymru* (Sally Wilkinson) *a Rhannu Gwasanaethau a systemau yng Nghymru, lle rydym ni nawr, ac i ble yr awn ni nesaf* (Mark Hughes). Roedd yna hefyd weithdy ar y broses o gynnig am arian o'r Undeb Ewropeaidd, yn cael ei arwain gan Brifysgol Abertawe a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gyda chyflwyniad gan Brifysgol Caerdydd ar y testun *Gwneud Cymru'n genedl gwybodaeth-lythrennog – enghraifft o gydweithio ar draws y sector Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Gwybodaeth (LIS).*

Mynychwyr cynhadledd SCONUL yng Nghaerdydd ym mis Mehefin

WHELF: Busnes a Phobl

Cyfarfodydd WHELF

Mae WHELF yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn – dwywaith yng Ngregynog, canolfan gynadledda Prifysgol Cymru, lle mae cwrdd fin nos yn cael ei ddilyn gan seminar yn y bore, a dwywaith trwy gyfrwng trefniant fideogynadledda.

7–8 Hydref 2010, Gregynog
18 Chwefror 2011, trwy fideogynadledda
5–6 Mai 2011, Gregynog
22 Gorffennaf 2011, trwy fideogynadledda

Grŵp Busnes WHELF

Cyfarfu'r Grŵp Busnes – sy'n gyfrifol am gynllun gweithredol a chynllun cyfathrebu WHELF – bedair gwaith eleni, a hynny cyn y cyfarfodydd llawn o WHELF.

Aelodaeth 2010/11:
Janet Peters, Prifysgol Caerdydd (Cadeirydd)
Rebecca Davies, Prifysgol Aberystwyth (Trysorydd)
Sue Mace, Swyddog Datblygu WHELF
Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Paul Jeorrett, Prifysgol Glyndŵr
Lesley May, Prifysgol Cymru, Casnewydd
Sally Wilkinson, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Pobl

Eleni bu raid i ni ffarwelio â Lesley May, ar ei hymddeoliad fel Pennaeth Gwasanaethau Llyfrgell Prifysgol Cymru, Casnewydd. Bydd colled fawr ar ôl ei chyfraniad i WHELF ac i lyfrgelloedd yng Nghymru. Yn ei lle, croesawyd Madeleine Rogerson, Pennaeth Cymorth Dysgu.

Yn cynrychioli Prifysgol Abertawe, estynnwyd croeso i Kevin Daniel, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau, a Mark Hughes, Pennaeth Casgliadau.

Yn dilyn ei chyfnod absenoldeb mamolaeth, croesawyd Leigh Abbott yn ôl i'w gwaith fel Llyfrgellydd Llyfrgell Ar-lein Prifysgol Cymru am gyfnod byr. Ers hynny, mae Leigh wedi symud i Awstralia, a llongyfarchwn Bronwen Blatchford ar ei swydd newydd fel llyfrgellydd llawn-amser.

Lesley May

Estynnodd WHELF longyfarchiadau i'r canlynol:

- David Learmont, y bydd ei swydd ym Mhrifysgol Bangor yn newid i Gyfarwyddwr Gwella Busnes, gyda phenodiad Sue Hodges yn Llyfrgellydd Prifysgol;

- Rebecca Davies, ar ei swydd newydd fel Dirprwy Is-Ganghellor, Gwasanaethau Staff a Myfyrwyr, Prifysgol Aberystwyth, a Julie Hart, a benodwyd i arwain y Gwasanaethau Llyfrgell fel Is-Gyfarwyddwr: Adnoddau Adeiladau a Staffio.

- Emma Adamson, a benodwyd i swydd Pennaeth yr Adran Llyfrgell yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd;

- Tracey Stanley, Is-Lyfrgellydd Prifysgol newydd Prifysgol Caerdydd;

- Lori Havard, a benodwyd yn Bennaeth Gwasanaethau Academaidd ym Mhrifysgol Abertawe;

- Alison Harding ac Emma Harvey-Woodason, Llyfrgellwyr newydd campysau Caerfyrddin a Llambed ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Yn ystod y flwyddyn, braf oedd gweld cydnabyddiaeth o'r rôl y mae llyfrgellwyr yn ei chwarae wrth gefnogi dysgu ac addysgu: yn Aberystwyth, enillodd Karl Drinkwater Gymrodoriaeth Dysgu ac Addysgu Prifysgol am ei waith arloesol; ym Morgannwg, enillodd Steve Lee wobr Rhagoriaeth mewn Dysgu, gwobr Dysgu ac Asesu ar draws yr holl Brifysgolion; a daeth Sonja Haerkoenen o Gaerdydd yn ail am wobr Ymarferwr Gwybodaeth Llythrennedd y Flwyddyn yn y Deyrnas Gyfunol. Cymerodd staff LCSS ran amlwg yn seremoni Gwobrau Cydnabod Staff Prifysgol Morgannwg a gynhaliwyd ym mis Ionawr. Roedd pedwar ohonynt yn aelodau o'r grŵp a enillodd y Wobr Llwyddiant Tîm am waith yn datblygu presenoldeb iTunesU y Brifysgol.

Gwobrau Cydnabod Staff Prifysgol Morgannwg – Gwobr Llwyddiant Tîm

Ymgynghoriadau

Derbyniodd WHELF nifer o wahoddiadau i ymateb i ymgynghoriadau ac adroddiadau. Cyflwynwyd ymatebion ar y canlynol:

- Addysg Uwch Cymru (HEW). *Archwiliad o Wasanaethau ar y Cyd ar draws y sector Addysg Uwch yng Nghymru a thu hwnt.*
- Llywodraeth Cymru. *Sicrhau cynhwysiant digidol – fframwaith strategol i Gymru*
- DCMS. *Ymgynghoriad ar Reoliadau Drafft y Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol (Cyhoeddiadau Di-brint) 2011.*
- CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru. *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli: Fframwaith strategol drafft ar gyfer datblygu llyfrgelloedd Cymru 2012–15.*
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri. *Llunio'r dyfodol – ar gyfer treftadaeth, ar gyfer pawb.*

Cynrychiolaeth

Caiff aelodau WHELF eu cynrychioli ar ystod eang o sefydliadau, yn genedlaethol a ledled y Deyrnas Gyfunol. Mae'r rhain yn cynnwys:

AWHILES – Gwasanaeth Ymestyn Gwybodaeth Iechyd a Llyfrgelloedd Ledled Cymru – Janet Peters, Prifysgol Caerdydd
Grŵp BIC / CILIP RFID mewn Llyfrgelloedd – Mark Hughes, Prifysgol Abertawe
Grŵp Trefnu Cynadleddau ar y Cyd, CILIP UC&R/CoFHE – Paul Jeorrett, Prifysgol Glyndŵr
Pwyllgor Gwaith CILIP Cymru – Rebecca Davies, Prifysgol Aberystwyth; Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Sue Mace, WHELF; Sally Wilkinson, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Cyngor Ymgynghorol CyMAL– Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru; David Learmont, Prifysgol Bangor
Grŵp Ymgynghorol Llyfrgelloedd am Oes CyMAL – Rebecca Davies, Prifysgol Aberystwyth; Lesley May, Prifysgol Cymru, Casnewydd
Grŵp Ymgynghorol Marchnata Llyfrgelloedd am Oes CyMAL – Lesley May, Prifysgol Cymru, Casnewydd
HEWIT: Fforwm Technoleg Gwybodaeth Addysg Uwch Cymru – Rebecca Davies, Prifysgol Aberystwyth
Grŵp Casgliadau Rhanddeiliaid (JIR) JISC – Jeremy Atkinson, Prifysgol Morgannwg
Pwyllgor Isadeiledd ac Adnoddau JISC– Jeremy Atkinson, Prifysgol Morgannwg
Tasglu Canfod Adnoddau JISC – Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cyd-bwyllgor Adnau Cyfreithiol – Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Pwyllgor Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol (Cadeirydd, Grŵp Gweithredu) – Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Partneriaeth Llyfrgelloedd Gogledd Cymru – Paul Jeorrett, Prifysgol Glyndŵr (Cadeirydd); David Learmont, Prifysgol Bangor
Rhwydwaith Gwybodaeth Ymchwil – Janet Peters, Prifysgol Caerdydd
Bwrdd Gweithredol Llyfrgelloedd Ymchwil y DG – Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Janet Peters, Prifysgol Caerdydd
Bwrdd Gweithredol SCONUL – Jeremy Atkinson, Prifysgol Morgannwg
Gweithgor SCONUL ar Lythrennedd Gwybodaeth – Janet Peters, Prifysgol Caerdydd (yn cael ei chynrychioli gan Cathie Jackson)
Grŵp Llywio Mynediad SCONUL – Paul Riley, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd; Sally Wilkinson, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Grŵp Sicrhau Ansawdd SCONUL – Paul Jeorrett, Prifysgol Glyndŵr
Pwyllgor Trefnu Cynhadledd SCONUL 2011 – Janet Peters, Prifysgol Caerdydd; Jeremy Atkinson, Prifysgol Morgannwg; Lesley May, Prifysgol Cymru, Casnewydd; Emma Adamson, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
Fforwm Cynghrair Cynnwys Strategol Cymru – Jeremy Atkinson, Prifysgol Morgannwg; Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Janet Peters, Prifysgol Caerdydd
Cronfa Ymchwil y DG Cam 1 a 2 – Janet Peters, Prifysgol Caerdydd
Llywodraeth Cymru: Bwrdd Rheoli Cynhwysiad Digidol – Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Llywodraeth Cymru: Bwrdd Ymgynghorol Cymru Ddigidol – Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Llywodraeth Cymru: Bwrdd Effeithiolrwydd a Gwelliant: Bwrdd Rhaglen TGCh – Andrew Green, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Grŵp Llywio Prosiect Llythrennedd Gwybodaeth Cymru – Sue Mace, WHELF
Grŵp Llywio WHEEL (Llyfrgell Electronig Addysg Uwch Cymru) – Jeremy Atkinson, Prifysgol Morgannwg; Janet Peters, Prifysgol Caerdydd; Paul Riley, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd; Mieko Yamaguchi, Prifysgol Bangor; Sue Mace, WHELF

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r pynciau a drafodir yn yr adroddiad blynyddol hwn, cysylltwch â:

Sue Mace
Swyddog Datblygu WHELF
Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe, SA2 8PP

Ebost: **s.j.mace@swansea.ac.uk**
Y We: **http://whelf.ac.uk**
Blog: **http://whelf.wordpress.com/**

Tynnwyd y lluniau ar y clawr a thudalen 1 yng Nghanolfan Addysgu Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, Llandaf, sydd wedi cael ei hadnewyddu'n ddiweddar